| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | CYNGOR LLAWN |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | Hydref 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro |
| **Teitl:** | Panel Cynghori'r Pwyllgor Safonau ar Recriwtio |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae dwy sedd wag ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Un sedd ar gyfer aelod annibynnol (lleyg) ac un sedd ar gyfer aelod 'cymunedol'. Mae proses recriwtio yn ei lle ac mae'n rhaid i'r Cyngor enwebu aelodau etholedig ar gyfer y Panel Cynghori ar Recriwtio.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Mae gofyn i'r Cyngor Llawn cytuno ar dri aelod i eistedd ar Banel Cynghori'r Pwyllgor Safonau ar gyfer cyfnod y Cyngor; felly, os digwydd i sedd arall ddod yn wag, mae'r Panel Cynghori eisoes wedi'i sefydlu.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor Llawn yn enwebu 3 aelod i eistedd ar Banel Cynghori'r Pwyllgor Safonau, hyd at ddiwedd cyfnod y Cyngor.

3.3 Bod y Cyngor yn cadarnhau nad oes angen Asesiad Lles.

4. **Manylion yr adroddiad**
Mae rheoliadau'r Pwyllgor Safonau yn nodi pwy sy'n gallu bod yn aelod o'r pwyllgor, ynghyd â gofyniad bod yn rhaid i ran fwyaf o'r aelodau pwyllgor fod yn 'aelodau lleyg' ac nid aelodau etholedig. Mae yna hefyd ofyniad i gael Cynghorydd Cymuned, Tref neu Ddinas ar y pwyllgor, nad ydyw'n Gynghorydd Sir.

Mae rheoliadau'r Pwyllgor Safonau yn nodi proses ar gyfer recriwtio Aelodau Lleyg, sy'n cynnwys cyhoeddi hysbyseb gyhoeddus. Bydd yr hysbyseb yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r clercod yn casglu datganiadau o ddiddordeb gan aelodau Cynghorau Cymuned, Tref a Dinas.

Bydd y Panel Cynghori yn cyfweld ag ymgeiswyr y ddwy sedd wag yng nghanol mis Tachwedd 2017. Bydd y panel wedyn yn adrodd yn ôl wrth y Cyngor Llawn gydag argymhellion, a bydd y Cyngor Llawn yn ystyried yr argymhellion hynny ac yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Y cam cyntaf yn y broses yw enwebu 3 aelod etholedig i gynnal y cyfweliadau a gwneud yr argymhellion. Anaml iawn y ceir seddi gwag ar gyfer aelodau lleyg neu gymunedol, fel rheol bob ychydig flynyddoedd, ac felly nid yw'r ymrwymiad hwn yn un rheolaidd.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Pwyllgor Safonau sy'n gweithredu'n briodol ac yn cadw at y gyfraith yn rhan hanfodol o fframwaith moesegol y Cyngor. Mae'n sicrhau bod aelodau yn cydymffurfio â'r cod ymddygiad ac mae hynny yn ei dro yn meithrin ffydd yn yr unigolion hynny sydd wedi'u hethol ac yn ymddygiad a phenderfyniadau'r sector cyhoeddus.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae cost ynghlwm wrth gyhoeddi hysbysebion cyhoeddus mewn papurau newydd, ond mae hynny'n ofyniad cyfreithiol. Cynhwysir yr holl gostau eraill o fewn cyllideb y pwyllgor.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid yw'r swyddogion o'r farn bod angen Asesiad Lles ar gyfer y penderfyniad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn ymwybodol o'r broses recriwtio, yn ogystal â'r Cynghorau Cymuned, Tref a Dinas. Ymgynghorir â Chynghorau Cymuned, Tref a Dinas cyn gwneud y penderfyniad terfynol a recriwtio aelod cymunedol i'r Pwyllgor Safonau, gan fod hynny'n ofynnol dan y rheoliadau. Bydd y Cyngor Llawn yn derbyn unrhyw adborth.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd yr holl gostau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol.

10. **Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ni all y Pwyllgor Safonau risgio peidio â bod yn gworwm, gan fod y rhan fwyaf o'r aelodau yn aelodau lleyg. Hefyd, mae'n rhaid i'r pwyllgor gael aelod sy'n Gynghorydd Cymuned, Tref neu Ddinas.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000
(Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) a wnaed dan y Ddeddf)